dti

RHWYDWAITH SWYDDFA'R POST

Dogfen ymgynghorol

RHAGFYR 2006

Pam mae'r DTI yn cynnal yr ymgynghoriad hwn

Mae swyddfeydd post yn chwarae rhan bwysig, yn gymdeithasol ac economaidd, yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gyda thechnoleg newydd, newid mewn ffyrdd o fyw a dewis ehangach o ran mynediad at wasanaethau, mae pobl yn ymweld â swyddfeydd post yn llai aml. Cododd colledion y rhwydwaith i bron £4 miliwn yr wythnos eleni ac ni ellir cynnal hynny yn ei ffurf bresennol. Ond erys yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth i gynnal rhwydwaith cenedlaethol o swyddfeydd post gyda phresenoldeb cenedlaethol.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid bellach gael polisi a fframwaith ariannol newydd ac mae'r Llywodraeth yn casglu barn ynghylch ei chynigion ar gyfer y dyfodol.

Cyflwynwyd	14 Rhagfyr 2006
Ymateb erbyn	8 Mawrth 2007
Ymholiadau at	Ymgynghoriad Rhwydwaith Swyddfa'r Post,
Cyfeiriad	Department of Trade and Industry,
	Response Centre,
	1 Victoria Street,
	London, SW1H 0ET
E-bost	dti.enquiries@dti.gsi.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad		4
Crynodeb o Gynigion y Llywodraeth		5
Sut i Ymateb		7
Adran 1:	Rhwydwaith Cenedlaethol	9
Adran 2:	Yr Heriau	11
Adran 3:	Yr Angen am Newid	14
Adran 4:	Siâp y Rhwydwaith i'r Dyfodol	16
Adran 5:	Rhwydwaith Cenedlaethol wedi'i Aildrefnu	22
Adran 6:	Casgliadau	25
Cwestiynau		27
Atodiad A	Côd Ymarfer yr Ymgynghoriad	28
Atodiad B	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	29
Atodiad C	Rhestr o sefydliadau fu'n rhan o'r ymgynghoriad	33

Cyflwyniad

Mae swyddfeydd post yn darparu gwasanaeth allweddol yn ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd. Mae rhwydwaith cenedlaethol yn hanfodol ac mae iddo werth cymdeithasol yn ogystal â swyddogaeth economaidd.

Dyna paham rydym wedi buddsoddi dros £2 biliwn er 1999 i'w gefnogi. Bydd y gefnogaeth honno'n parhau. Rydym yn barod i sicrhau y bydd arian pellach sylweddol ar gael dros y pum mlynedd nesaf i gadw'r rhwydwaith yn un cenedlaethol ac i helpu'r cwmni wneud y newidiadau angenrheidiol i drawsffurfio'r rhwydwaith a'i roi ar seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol.

Y mae her hirdymor yn wynebu swyddfeydd post. O wasanaethau ar lein, e-bost, bancio dros y ffôn a'r Rhyngrwyd, debyd uniongyrchol, negeseuon testun – yn gynyddol, mae pobl yn dewis byw eu bywydau mewn ffyrdd gwahanol. Mae oddeutu 4 miliwn yn llai o bobl yn defnyddio'u swyddfa bost bob wythnos nag oedd ddwy flynedd yn ôl. Collodd y rhwydwaith £2 filiwn bob wythnos y llynedd, gan godi i £4 miliwn eleni. Ni all hynny barhau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y busnesau hyn yn gwybod hynny'n well na neb. Dyna pam mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri a'r Pwyllgor Dethol ar Fasnach a Diwydiant hollbleidiol wedi cydnabod bod maint presennol y rhwydwaith o dros 14,000 o swyddfeydd yn 'anghynaladwy'.

Er mwyn creu rhwydwaith cynaliadwy, rydym eisiau rhoi'r gallu i Swyddfa'r Post Cyf. foderneiddio, i adfer swyddfeydd y Goron yn rhai proffidiol, i fuddsoddi mewn cynigion o gynhyrchion newydd ac edrych ar ffyrdd arloesol o gyflwyno'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen. Fe fydd yn golygu newid maint y rhwydwaith, ond byddwn yn gweithio gyda chymunedau bregus a'u gwarchod gan wneud yn sicr bod y gwasanaethau cywir yn y mannau cywir. Er enghraifft, gydag is-bostfeistr yn darparu gwasanaethau 'Allgymorth' i gymunedau bychan gerllaw.

Rhwydwaith cenedlaethol ar seiliau cryf, cadarn i gwrdd â heriau heddiw. Dyna sydd ei angen ar y wlad. Dyma y mae ein cynigion yn ceisio ei gyflwyno.

Crynodeb o gynigion y Llywodraeth ar gyfer rhwydwaith Swyddfa'r Post

- Bwriadwn sicrhau bod arian sylweddol pellach ar gael dros y pum mlynedd at 2011. Bydd hyn yn cynnal y gwaith angenrheidiol o aildrefnu a moderneiddio'r rhwydwaith i'w roi ar seiliau mwy cadarn a darparu cefnogaeth barhaus ar gyfer y rhwydwaith cymdeithasol hyd at y lefelau presennol. Fe fydd angen cymhorthdal parhaus ar y rhwydwaith cymdeithasol y tu hwnt i 2011.
- Bwriadwn gyflwyno meini prawf mynediad newydd ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol Swyddfa'r Post a fydd yn cynnwys meini prawf i ddiogelu defnyddwyr bregus mewn ardaloedd trefol difreintiedig ac ardaloedd gwledig ac anghysbell.
  - *Yn genedlaethol*, 99% o fewn 3 milltir a 90% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir;
  - Mewn *ardaloedd trefol difreintiedig*[1], 99% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir;
  - Mewn *ardaloedd trefol*, 95% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir;
  - Mewn *ardaloedd gwledig*, 95% o gyfanswm y boblogaeth wledig i fod o fewn 3 milltir.
  - Mewn ardaloedd anghysbell, 95% o'r boblogaeth mewn rhanbarthau côd post[2] o fewn 6 milltir.
  - Ar draws y wlad gyfan, ni ellir cael 'un ymagwedd sy'n ffitio pawb' o ran meini prawf mynediad. Wrth eu cymhwyso, bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn rhoi ystyriaeth i amodau lleol megis afonydd, mynyddoedd, dyffrynnoedd, traffyrdd a chroesi'r môr at ynysoedd.
- Mae'r meini prawf mynediad arfaethedig yn cydnabod swyddogaeth gymdeithasol bwysig swyddfeydd post mewn cymunedau ledled y wlad.

1 cymunedau trefol difreintiedig yw'r rhai yn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach mwyaf difreintiedig a nodir gan y Mynegeion Amddifadedd Lluosog

2 rhanbarth côd post yw rhan gyntaf y côd post e.e. SL9. Mae yna 2,795 ledled y wlad a 38 nad ydynt yn bodloni'r maen prawf hwn ar hyn o bryd. Bydd y 38 hyn yn parhau i gael eu heithrio ond ni fyddwn yn caniatáu i ragor o ranbarthau côd post gael eu heithrio.

- Mae angen rhwydwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gan bobl fynediad at arian parod a budd-daliadau yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell.
- Mae cytundeb cyfredol cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post (POca) yn dod i ben ym mis Mawrth 2010. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried a phenderfynu y bydd yn parhau â chyfrif newydd ar ôl 2010. Fe fydd hwn ar gael yn genedlaethol a bydd cwsmeriaid yn gymwys ar gyfer y cyfrif ar yr un sail ag y maent nawr.
- Cydnabyddwn swyddogaeth bwysig swyddfeydd post yn gymdeithasol ac economaidd ac rydym yn ymrwymedig i gynnal rhwydwaith cenedlaethol ond rydym yn sylweddoli hefyd y bydd angen peth aildrefnu er mwyn ei roi ar sail gadarnach, fwy cynaliadwy.
- Byddwn yn darparu cefnogaeth ar gyfer aildrefnu'r rhwydwaith gyda hyd at 2500 swyddfa yn cau o fewn y fframwaith hwnnw gan gynnal rhwydwaith cenedlaethol. Bydd is-bostfeistri a fydd yn gadael y rhwydwaith dan y rhaglen aildrefnu yn derbyn iawndal. Disgwyliwn y bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn gweithredu'r broses hon dros gyfnod o 18 mis o'r haf 2007, gan roi blaenoriaeth i ddiogelu cymunedau bregus mewn pentrefi, trefi a dinasoedd.
- Bwriadwn hefyd roi cefnogaeth i Swyddfa'r Post Cyf. agor lleoliadau Allgymorth newydd er mwyn darparu mynediad at wasanaethau ar gyfer cymunedau bychan gwledig trwy adeiladu ar lwyddiant y cynlluniau arbrofol gan gynnwys swyddfeydd post symudol a swyddfeydd post yn cael eu cynnal mewn lleoliadau eraill megis neuaddau pentref, canolfannau cymunedol neu dafarndai.
- Byddwn yn darparu cefnogaeth i alluogi Swyddfa'r Post Cyf. i ehangu i feysydd busnes newydd gan gynnwys datblygu ei gynhyrchion newydd ym maes gwasanaethau ariannol, megis cynilion ac yswiriant, a darparu cyllid i aildrefnu a moderneiddio'r rhwydwaith o swyddfeydd y Goron i'w gwneud yn broffidiol a'u trawsffurfio yn enghreifftiau blaenllaw o frand Swyddfa'r Post ochr yn ochr â chau nifer o swyddfeydd a pharhau i ryddfreinio trwy lunio cyswllt â manwerthwyr profiadol.
- Mae Swyddfa'r Post Cyf. yn bwriadu datblygu cyfleoedd newydd yn y farchnad ac o ran busnes ar gyfer y rhwydwaith ymysg cwmnïau Rhyngrwyd a chwmnïau eraill sy'n gweithredu drwy'r post. Er enghraifft, un maes allweddol lle mae yna gyfleoedd sydd wrthi'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yw rhoi'r gallu i gwsmeriaid ddod at gownteri swyddfeydd post i gasglu parseli a archebwyd ganddynt oddi wrth gwmnïau archebu drwy'r post neu drwy wasanaethau Rhyngrwyd. Mae'r cwmni hefyd yn bwriadu cyflwyno'n gyflym hyd at 4,000 o beiriannau twll yn y wal (ATM) i'w defnyddio'n rhad ac am ddim ar draws y rhwydwaith.
- Yn y tymor hirach y tu hwnt i 2011 bwriadwn archwilio swyddogaethau posibl yr Awdurdodau Lleol yn Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran dylanwadu ar y modd gorau o gyflwyno gwasanaethau post yn y dyfodol.

Sut i Ymateb

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn gwahodd safbwyntiau ar unrhyw agwedd a godir yn y ddogfen hon ac, yn arbennig, lle gofynnir yn benodol am safbwyntiau.

Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn ar 14 Rhagfyr 2006. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 8 Mawrth 2007.

Wrth ymateb, a fyddech chi cystal â nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, a wnewch chi egluro pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo'n berthnasol, sut y cafodd barn yr aelodau ei chasglu. Gellir cyflwyno ymatebion ysgrifenedig trwy lythyr, ffacs neu (gorau oll) trwy e-bost at:

Ymgynghoriad Rhwydwaith Swyddfa'r Post
Department of Trade and Industry
Response Centre
Victoria Street
London
SW1H 0ET
Ffacs: 00 44 (0) 20 7215 5329
E-bost: dti.enquiries@dti.gsi.gov.uk

Mae copi o ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i'w chael yn Atodiad B. Gall yr Adran drefnu i ddarparu copïau caled, neu gopïau mewn ieithoedd eraill neu mewn Braille os bydd angen. Am ragor o gopïau o'r ddogfen ymgynghorol electronig a'r ffurflen ymateb, ewch i wefan y DTI – http://www.dti.gov.uk/consultations/index.html

Mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion a gyfrannodd at yr ymgynghoriad yn Atodiad C. Byddem yn croesawu awgrymiadau am eraill a fyddai o bosibl yn dymuno bod yn rhan o'r broses ymgynghori hon.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Gwarchod Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych yn dymuno i wybodaeth arall a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, a wnewch chi gofio, dan ddeddf FOIA, fod yna Gôd Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O gofio hyn, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio wrthym pam rydych yn ystyried y wybodaeth a ddarparwch yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi cyfrif llawn i'ch esboniad, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Os yw eich system Technoleg Gwybodaeth yn cynhyrchu ymwadiad cyfrinachedd awtomatig, ni fydd hynny ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac ym mwyafrif yr achosion bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Cwynion

Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech eu hanfon at:

Mary Smeeth
Consultation Co-ordinator
Department of Trade and Industry
Bay 4110
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET
E-bost Mary.Smeeth@dti.gsi.gov.uk
Ffôn 00 44 (0) 20 7215 2146

Gweler Atodiad A ar gyfer Côd Ymarfer yr Ymgynghoriad

Copïau ychwanegol

Cewch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn caniatâd.

Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y materion a godir yn yr ymgynghoriad hwn at Ganolfan Ymateb y DTI yn y manylion cysylltu isod.

[Os byddwch yn rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu oblygiadau eraill i'n cynigion, yn eich barn chi, a wnewch chi roi gwybod i ni amdanynt, os gwelwch yn dda.]

Adran 1:

Rhwydwaith Cenedlaethol

Mae gan rwydwaith Swyddfa'r Post swyddogaeth bwysig, yn gymdeithasol ac economaidd, yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Gwnaeth y Llywodraeth fuddsoddiad sylweddol o dros £2 biliwn yn y rhwydwaith er 1999 a bydd yn parhau i gynnal rhwydwaith cenedlaethol o swyddfeydd post.

1.1 O uchafswm o tua 25,000 o swyddfeydd ar ganol y 1960au, dechreuodd maint y rhwydwaith leihau mor fuan â 1970 a pharhaodd y dirywiad ers hynny gydag oddeutu 6,000 wedi cau'n ad hoc erbyn 1997. Hyd nes y dechreuwyd aildrefnu'r rhwydwaith am y tro cyntaf ar sail reoledig dan raglen Ailddyfeisio Trefol rhwng 2002 a 2005 a chyflwyniad cymhorthdal blynyddol o £150 miliwn ar gyfer y rhwydwaith gwledig yn 2003 nid oedd na pholisi na chymorth i gynorthwyo'r rhwydwaith i addasu mewn ymateb i newidiadau ehangach mewn cymdeithas.

1.2 Er 1999, buddsoddodd y Llywodraeth symiau mawr iawn yn rhwydwaith Swyddfa'r Post gan fuddsoddi rhagor na £2 biliwn i'w helpu i addasu i anghenion newidiol y cwsmeriaid a'r farchnad y mae'n gweithredu o'i mewn. Roedd hyn yn cynnwys £500 miliwn o fuddsoddiad ym mhrosiect Horizon i ddod â systemau cyfrifiaduron modern i holl swyddfeydd post y wlad am y tro cyntaf – fel y gallai Swyddfa'r Post Cyf. lansio cyfres o gynhyrchion newydd a photensial i agor ei gownteri i dros 20 miliwn o gwsmeriaid banc. Y mae hefyd yn cynnwys ariannu o £150 miliwn y flwyddyn, sef cyfanswm o £750 miliwn, i gefnogi'r rhwydwaith gwledig am bum mlynedd o 2003 tan 2008.

1.3 Elfen allweddol yn yr ymdriniaeth hon fu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi cydnabod y swyddogaeth bwysig, yn gymdeithasol ac economaidd, sydd gan swyddfeydd post yn y cymunedau a wasanaethant ac yn enwedig ymhlith y grwpiau cwsmeriaid mwyaf bregus sy'n dibynnu arnynt fel rhaff achub. Oherwydd ehangder ei gyrhaeddiad daearyddol, mae rhwydwaith Swyddfa'r Post mewn safle unigryw i ddarparu gwasanaethau allweddol sy'n cynnwys mynediad at arian parod a budd-daliadau, cyfleusterau talu biliau yn ogystal â mynediad at wasanaethau post mewn ardaloedd anghysbell.

1.4 Erys cynnal rhwydwaith cenedlaethol â phresenoldeb cenedlaethol yn flaenoriaeth i ni, felly rydym eisiau galluogi Swyddfa'r Post Cyf. i foderneiddio ac adfywio'r rhwydwaith er mwyn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol, fel y bydd y rhwydwaith yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth.

Adran 2:

Yr Heriau

Gyda thechnoleg newydd, arferion yn newid a dewis ehangach o ran cael mynediad at wasanaethau, mae pobl yn ymweld â'u swyddfeydd post yn llai aml. Mae tua 4 miliwn yn llai o bobl yn defnyddio swyddfa'r post bob wythnos o gymharu â dwy flynedd yn ôl. Collodd y rhwydwaith £2 filiwn bob wythnos y llynedd; cododd hynny i £4 miliwn eleni.

2.1 Y mae'r farchnad y mae rhwydwaith Swyddfa'r Post yn gweithredu o'i mewn wedi newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth dros y deng i bymtheng mlynedd diwethaf. Ers talwm, roedd pobl yn mynd i swyddfa'r post i bostio llythyr, talu biliau cyfleustodau a chasglu budd-daliadau. Mae llawer yn dal i wneud hynny. Ond mae mwy a mwy o bobl yn dewis anfon e-bost neu neges destun; yn talu biliau trwy ddebyd uniongyrchol neu fancio dros y Rhyngrwyd; a'u budd-daliadau'n cael eu talu'n syth i'w cyfrif banc. Y dyddiau hyn mae stampiau (sef cynnyrch a berthynai'n annatod i Swyddfa'r Post ers talwm) ar gael i'w prynu mewn 50,000 o safleoedd manwerthu eraill. Mae hi hyd yn oed yn bosibl eu prynu, a'u personoli, dros y Rhyngwyd.

2.2 Mae yna newid yn y ffordd y mae pobl yn dewis cael mynediad at eu harian, talu eu biliau neu ddefnyddio gwasanaethau'r Llywodraeth. Mae 75% o'r holl bobl sy'n derbyn budd-daliadau bellach yn dewis derbyn y taliadau i'w cyfrif banc. Yn genedlaethol, mae 8.7 miliwn o gyfanswm o 11.2 miliwn o bensiynwyr yn derbyn eu pensiwn yn syth i gyfrif banc. Mae mynediad ar lein i wasanaethau eraill yn boblogaidd iawn: er enghraifft mae dros 3 miliwn o bobl wedi adnewyddu eu trwydded cerbyd modur ar lein eleni. Yn amlwg mae cwsmeriaid wedi cymryd at y dulliau newydd hyn o dalu, ac yn eu cael yn hyblyg a chyfleus.

2.3 O ganlyniad i'r dechnoleg newydd hon, yr arferion a'r ffyrdd o fyw newidiol, a dewis ehangach o ran cael mynediad at wasanaethau, mae pobl yn ymweld â'u swyddfeydd post yn llai a llai aml. Er i swyddfeydd post wasanaethu 24 miliwn o gwsmeriaid bob wythnos y llynedd, aeth tua 4 miliwn o gwsmeriaid yn llai i gangen o swyddfa'r post bob wythnos o gymharu â dwy flynedd ynghynt.

2.4 Er mwyn i'r rhwydwaith oroesi, mae'n rhaid iddo wynebu gwir her addasu i'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn dewis cael mynediad at wasanaethau. Cymerodd Swyddfa'r Post Cyf. gamau breision at ddatblygu meysydd busnes newydd, megis gwasanaethau ariannol a chynigion telegyfathrebu er mwyn gwrthweithio'r lleihad yn y galw am gynhyrchion a gwasanaethau traddodiadol, ond erys bwlch mawr rhwng refeniw a chostau cynnal y rhwydwaith ac mae'r bwlch hwnnw'n tyfu.

2.5 Mae'r Llywodraeth yn darparu cymhorthdal rhwydwaith cymdeithasol o £150 miliwn y flwyddyn i gefnogi swyddfeydd gwledig. Gyda nifer gyfartalog o 7 miliwn o gwsmeriaid yr wythnos yn defnyddio'r rhwydwaith gwledig mae hyn yn cynrychioli cymhorthdal blynyddol o ychydig dros £20. Er hyn, ar gyfartaledd fe gollodd y rhwydwaith £2 filiwn yr wythnos y llynedd gyda chyfanswm colledion o £100 miliwn dros y flwyddyn cyn rhoi cyfrif am y taliad rhwydwaith cymdeithasol. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, rhagfynegir colledion o oddeutu £4 miliwn bob wythnos neu £200 miliwn dros y flwyddyn ac er mwyn bodloni anghenion arian parod Swyddfa'r Post Cyf. bydd cyfanswm ariannu'r Llywodraeth yn fwy na £7 miliwn yr wythnos.

2.6 Rhwydwaith swyddfa'r post yw'r rhwydwaith manwerthu cenedlaethol mwyaf o ddigon yn y wlad o gymharu â rhwydweithiau masnachol eraill fel y dengys y tabl isod. Mae ganddo 8 gwaith yn fwy o ganghennau na Tesco, a mwy o ganghennau na holl fanciau eraill y DU gyda'i gilydd. Gan fod y cwmnïau hynny'n arloesi a chystadlu drwy'r amser i gynnig rhagor o wasanaethau, maent yn cyflwyno sialens gyson i rwydwaith Swyddfa'r Post. Mae ehangder presenoldeb y rhwydwaith, wedi'i danategu'n fawr gan arian cyhoeddus, yn gryn ased, ond serch hynny mae'r costau sy'n gysylltiedig â'i gynnal yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd i Swyddfa'r Post Cyf. gystadlu'n effeithiol am fusnes yn erbyn cystadleuwyr â chostau is a mwy o hyblygrwydd.

Maint Rhwydweithiau Manwerthu a Changhennau Banciau



2.7 Ac eithrio y 480 o swyddfeydd post y Goron, mae'r holl swyddfeydd post eraill mewn dwylo preifat ac yn gweithredu fel asiantau neu ryddfreintiau dan gytundeb â Swyddfa'r Post Cyf. Yn hanesyddol lleolwyd y canghennau hyn ble bynnag roedd yr is-bostfeistr yn dymuno sefydlu ei fusnes yn hytrach nag ar sail penderfyniad strategol ar ran Swyddfa'r Post Cyf. Gydag amser, arweiniodd hyn at rwydwaith gorfawr nad yw bob amser yn y sefyllfa orau i wasanaethu ei gwsmeriaid neu i fanteisio ar gyfleoedd masnachol sydd ar gael.

2.8 Mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, mae gormod o ganghennau yn cystadlu am yr un cwsmeriaid a phrin y defnyddir rhai canghennau o gwbl bron. Y llynedd, ar gyfartaledd roedd y swyddfeydd post gwledig lleiaf yn gwasanaethu 16 o bobl yn unig bob wythnos, ar gost i'r trethdalwr o £17 yr ymweliad, ni waeth faint o drafodion a brosesid. Fe wnaeth 600 o ganghennau ymdrin â llai nag 20 o gwsmeriaid y dydd gan golli £8 am bob un o'r trafodion a wnaed. Mae rhagor na hanner y rhwydwaith gwledig â llai na 500 o gwsmeriaid bob wythnos a mwy nag 80% o'r rhwydwaith gwledig yn amhroffidiol i Swyddfa'r Post Cyf.

2.9 Er i Raglen Ailddyfeisio Trefol Swyddfa'r Post Cyf. helpu i leihau lefelau gorddarpariaeth mewn rhai ardaloedd trefol lle'r oedd gormod o swyddfeydd yn cystadlu am y cwsmeriaid oedd ar gael, iddynt oll ffynnu fel busnesau, y mae'n eglur, gyda'r sefyllfa'n mynd yn llai dichonadwy drwy'r amser, bod angen gwneud mwy i osod y rhwydwaith trefol ar sail gynaliadwy a gwarchod cyrhaeddiad daearyddol cyffredinol y rhwydwaith.

2.10 Yn ychwanegol at y canghennau sy'n cael eu rhedeg gan is-bostfeistri, mae Swyddfa'r Post Cyf. yn gweithredu a rheoli tua 500 o swyddfeydd post y Goron eu hunain, yn bennaf yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd. Mae swyddfeydd y Goron yn gyfrifol am bumed ran o holl fusnes Swyddfa'r Post Cyf. Ond, y llynedd, fe wnaethon nhw golledion o £50 miliwn (a disgwylir colledion o £70 miliwn eleni), gyda swyddfeydd asiantaeth mewn ardaloedd trefol difreintiedig yn gwneud colled bellach o £5 miliwn ar y cyd.

Adran 3:

Yr Angen am Newid

Nid yw'r rhwydwaith yn gynaliadwy ar ei ffurf bresennol. Rhaid iddo fabwysiadu ffyrdd mwy hyblyg a chost effeithiol o gyflwyno gwasanaethau ac ymateb i anghenion cwsmeriaid.

3.1 Y mae yna nawr gonsensws eang rhwng Swyddfa'r Post Cyf., Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, Postcomm a Postwatch fod angen newid er mwyn moderneiddio ac addasu rhwydwaith Swyddfa'r Post i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid yn yr oes ddigidol sydd ohoni heddiw. Roedd y Pwyllgor Dethol ar Fasnach a Diwydiant hollbleidiol diweddar hefyd yn cydnabod y consensws hwn gan adrodd fel hyn yn ei Nawfed Adroddiad a gyhoeddwyd ar 30 Hydref 2006: "Mae'n ymddangos bod ein tystion yn derbyn yn gyffredinol, os yn amharod, fod rhwydwaith o 14,500 o ganghennau yn anghynaladwy."[3]

3.2 Y mae'n eglur fod gan Rwydwaith Swyddfa'r Post swyddogaeth barhaus a phwysig i'r dyfodol. Y mae'n darparu un o'r nifer o sianelau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'r Llywodraeth. Mae'n ganolbwynt cymdeithasol mewn llawer ardal.

3.3 Ar sail gwbl fasnachol ni fyddai'n bosibl i Swyddfeydd Post barhau i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Nododd Swyddfa'r Post Cyf. mai oddeutu 3,600-4,000 o swyddfeydd yn unig a fyddai mewn rhwydwaith cwbl fasnachol. O gydnabod swyddogaeth gymdeithasol swyddfeydd post, fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen cadw rhwydwaith cenedlaethol y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n fforddiadwy ar sail fasnachol yn unig. Er mwyn gwneud hyn mewn modd a fyddai'n gynaliadwy i'r dyfodol fe fydd yn rhaid i Swyddfa'r Post Cyf. fabwysiadu ffyrdd newydd, mwy hyblyg o gyflwyno ei wasanaethau a fydd yn gallu ymateb i anghenion newidiol ei gwsmeriaid.

[3] Mae cyswllt at Nawfed Adroddiad Masnach a Diwydiant ar Grŵp y Post Brenhinol yn: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmselect/cmtrdind/1556/155602.htm

3.4 Mae angen rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu ar gyfer pobl anghenus, sy'n cyflwyno gwasanaethau yn fwy cost-effeithiol, yn dewis dulliau arloesol fel bod gwell perthynas rhwng galw a chyflenwadau ac sy'n sicrhau mynediad cyfleus ar gyfer cymunedau â gwir angen cymdeithasol.

3.5 Lle bo gorddarpariaeth yn bygwth bywoliaeth is-bostfeistri mae angen rhoi sylw i hyn. Lle bo swyddfeydd llawn amser yn rhoi gwasanaeth i nifer fechan o gwsmeriaid bydd angen ystyried gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwasanaethau, megis y trefniadau partneriaeth â busnesau eraill neu'r unedau symudol a dreialwyd gan Swyddfa'r Post Cyf. dros y deunaw mis diwethaf.

3.6 Bwriadwn ddarparu cefnogaeth i alluogi Swyddfa'r Post Cyf. i atal colledion rhwydwaith Swyddfeydd y Goron ac i foderneiddio a gwella'r gwasanaethau a gynigir gan y swyddfeydd hyn i gwsmeriaid. Er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaeth fel craidd masnachol y busnes, rhaid adfer rhwydwaith swyddfeydd y Goron a'i wneud yn broffidiol. Fe fydd hyn yn golygu rhyddfreinio rhai o'r gweithrediadau hyn. Ond cydnabyddir bod rhwydwaith craidd o swyddfeydd y Goron yn allweddol er mwyn cyflwyno trawsffurfiad y busnes a helpu Swyddfa'r Post Cyf. i ddatblygu presenoldeb cryf mewn meysydd busnes newydd. Cyflawnir hyn trwy raglen o ailwampio a buddsoddi.

3.7 Rhaid parhau i anelu cymorth gan y Llywodraeth at alluogi Swyddfa'r Post Cyf. i foderneiddio'r ffordd y mae'n cyflwyno gwasanaethau i'w gwsmeriaid a darparu llwyfan cadarn ar gyfer y dyfodol gan gadw rhwydwaith cenedlaethol.

Adran 4:

Siâp y Rhwydwaith i'r Dyfodol

Byddwn yn cynnal rhwydwaith cenedlaethol gyda phresenoldeb cenedlaethol – gan sicrhau amddiffyniad digonol i'r rhai â'r mwyaf o angen.

4.1 Y mae angen am rwydwaith Swyddfa'r Post cenedlaethol sy'n darparu mynediad rhesymol i'r holl gymunedau, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd anghysbell. Mae swyddfeydd post yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r rhai sy'n fregus yn ein cymuned (yn enwedig yr henoed, pobl anabl a'r rhai sy'n cael eu heithrio yn gymdeithasol) ac mae'n bwysig bod y rhwydwaith yn parhau i wneud hynny.

4.2 Fodd bynnag, mae sefyllfa ariannol Swyddfa'r Post Cyf. yn argyfyngus ac mae'n dal i ddirywio. Cydnabyddir yn eang nad oes yna atebion cyflym na syml i'r broblem greiddiol o bontio'r bwlch rhwng costau a refeniw. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen brys i sefydlu pecyn ariannol i foderneiddio ac ailddrefnu'r rhwydwaith a'i osod ar sail gadarn.

4.3 Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud buddsoddiad sylweddol pellach er mwyn rhoi'r rhwydwaith ar seiliau cadarn erbyn 2011. Dyma amcanion y Llywodraeth ar gyfer unrhyw waith i ailddrefnu'r rhwydwaith:

- Cadw rhwydwaith cenedlaethol yn un cenedlaethol, gan roi sylw arbennig i anghenion cymunedau gwledig anghysbell a threfol difreintiedig ar draws y wlad o fewn y fframwaith o safonau clir a dealladwy yn ymwneud â mynediad at wasanaethau swyddfa'r post;
- Canolbwyntio ar wasanaethau i gwsmeriaid yn hytrach na brics a morter a chyflwyno ffyrdd mwy hyblyg ac arloesol o ddarparu gwasanaethau i gymunedau anghysbell, er enghraifft, swyddfeydd post symudol a modelau Allgymorth eraill sy'n defnyddio technoleg fodern;
- Buddsoddi mewn cyfarpar newydd ac awtomeiddio er mwyn moderneiddio'r modd y cyflwynir y gwasanaeth i gwsmeriaid ym mhrif swyddfeydd y Goron – gan eu trawsffurfio yn enghreifftiau blaenllaw ar gyfer brand Swyddfa'r Post;

- Canolbwyntio ar gyfres o gynhyrchion a gwasanaethau y mae'r cwsmeriaid yn eu disgwyl ac y mae arnynt eu hangen gan eu swyddfeydd post a sut y gallant sicrhau busnes cynaliadwy;
- Rhoi sylw i fater gorddarpariaeth swyddfeydd gyda nifer fechan o gwsmeriaid, fel bod y galw gan gwsmeriaid yn cyfateb yn well i gyflenwad y swyddfeydd a, lle bo'n briodol, yn galluogi'r is-bostfeistr i adael ar delerau gyda iawndal;
- Rhoi sicrwydd i gwsmeriaid ynghylch mynediad yn y dyfodol a mwy o eglurder a sefydlogrwydd i staff ac is-bostfeistri.

4.4 Fel y cydnebydd y rhan fwyaf o bobl, fe fydd hyn yn ei gwneud hi'n angenrheidiol lleihau rhywfaint ar faint y rhwydwaith, yn enwedig ymhlith y swyddfeydd a ddefnyddir leiaf a'r rhai sy'n gwneud y colledion mwyaf, ond fe fydd hyn yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau na fydd cymunedau â'r anghenion cymdeithasol mwyaf yn colli mynediad at wasanaethau swyddfa'r post. Bydd y Llywodraeth yn gosod meini prawf ar gyfer mynediad er mwyn sicrhau presenoldeb ar lefel briodol a bydd yn darparu cyllid i Swyddfa'r Post Cyf. er mwyn ei alluogi i gyflwyno hyn. Amlinellir cynigion y Llywodraeth ar gyfer cyflwyno'r rhwydwaith cenedlaethol yn y bennod nesaf.

4.5 Er mwyn moderneiddio'r rhwydwaith bydd angen cryn ymdrech ar ran Swyddfa'r Post Cyf. Mae angen iddo ganolbwyntio ar wneud swyddfeydd y Goron yn broffidiol drachefn, eu trawsffurfio trwy ailwampio a buddsoddiad yn enghreifftiau blaenllaw ar gyfer brand Swyddfa'r Post. Mae Swyddfa'r Post Cyf. yn gweithio'n agos gyda staff ac undebau i ddatblygu strategaeth er mwyn cyflawni hyn. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar gau nifer fechan o swyddfeydd a pharhau i ryddfreinio canghennau sy'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol trwy fynd ar ôl llunio cyswllt â manwerthwyr uchel eu parch sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n rhannu ymrwymiad Swyddfa'r Post i roi gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid. Canlyniad hyn fydd cadwyn genedlaethol lai a phroffidiol o swyddfeydd y Goron yn gweithredu ar safonau manwerthu modern, yn ogystal â gosod safonau ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid drwy'r rhwydwaith cyfan ac arloesi trwy ddefnyddio technoleg newydd megis sianelau hunanwasanaeth. Blaenoriaeth y cwmni, wrth ddatblygu ei strategaeth ar gyfer rhwydwaith swyddfeydd y Goron yw gweithio'n adeiladol gyda'r staff i weithredu hyn. Bydd trawsffurfiad rhwydwaith swyddfeydd y Goron yn cael ei gyflawni trwy raglen wedi'i rheoli yn ofalus o drawsnewid a chau a thrwy well cynhyrchiant. Yn ogystal, y mae'n rhan o'r cynllun i sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn gorbenion gweinyddol a lefelau staffio ar draws y busnes.

4.6 Rhaid i Swyddfa'r Post Cyf. leihau ei golledion hefyd trwy ganolbwyntio ar wella'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig a thrwy fabwysiadu modelau busnes newydd a mwy hyblyg. Yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfleusterau traddodiadol, bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn archwilio Allgymorth (is-bostfeistr craidd yn darparu gwasanaethau i gymunedau pellennig lle nad oes neu lle nad oes bellach swyddfa bost barhaol yn ôl y disgrifiad yn 4.7) a ffyrdd arloesol eraill o gyflwyno'r gwasanaethau cywir i'r bobl sydd eu hangen.

4.7 Gydag arian gan y Llywodraeth, bu Swyddfa'r Post Cyf. yn cynnal cynllun treialu Allgymorth llwyddiannus mewn ardaloedd gwledig ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig er mwyn rhoi prawf ar y potensial i is-bostfeistri sy'n rhedeg swyddfeydd mwy fynd ati hefyd i gynnig gwasanaethau mewn cymunedau llai. Mae'r treialon yn cynnwys defnyddio swyddfeydd post symudol, danfon gwasanaethau swyddfa bost yn uniongyrchol i dai pobl a chynnal swyddfeydd post mewn busnesau eraill megis tafarndai, canolfannau cymuned a neuaddau pentref. Mae cyflwyno gwasanaethau Allgymorth yn helpu i gadw'r costau yn is gan helpu pobl yn raddol i addasu a derbyn newidiadau yn y modd y gellid cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol. Cafodd ymdriniaeth Allgymorth ei chynllunio i gyflwyno gwasanaethau swyddfa bost wledig sy'n rhoi 'gwerth am arian' a rhai y gellir eu teilwra i fodloni gwahanol amgylchiadau a sefyllfaoedd. Dan y treialon a fu'n cael eu cynnal gan Swyddfa'r Post Cyf., bu swyddfa bost greiddiol yn gwasanaethu nifer o safleoedd Allgymorth gan ddefnyddio un neu fwy o blith pedwar dewis Allgymorth. Dyma'r pedwar:

- *Lletyol* – gwasanaeth llawn yn cael ei gynnig gan is-bostfeistr (neu weithiwr â hyfforddiant llawn) o swyddfa bost gyfagos mewn safle "lletyol" megis siop, neuadd bentref neu eglwys.
- *Partner* – gwasanaeth sylfaenol gyda mynediad at arian parod, talu biliau, stampiau, pwyso a gadael parseli yn cael ei ddarparu gan werthwr arall ochr yn ochr â'u prif fusnes, megis gorsaf betrol neu dafarn, dan oruchwyliaeth yr is-bostfeistr creiddiol a fyddai'n darparu'r cynhyrchion angenrheidiol ar gyfer y safle.
- *Gwasanaeth cartref* – gwasanaeth cyfyngedig yn cael ei gynnig trwy archebu dros y ffôn neu ar lein, gyda'r is-bostfeistr yn trefnu i'w danfon yn bersonol i gartref y cwsmer neu i bwynt danfon canolog.
- *Symudol* – gwasanaeth llawn yn cael ei gynnig gan swyddfa bost symudol sy'n ymweld â nifer o leoliadau ar adegau penodol yn rheolaidd.

4.8 Mae gan Swyddfa'r Post nifer o enghreifftiau o ffyrdd dychmygus o ddarparu gwasanaethau swyddfa bost i gymunedau bach fel y cydnabydda ei gwobrau 'Gwobr Swyddfa'r Post Orau', a oedd eleni yn adlewyrchu'r ffyrdd newidiol y mae pobl yn fodlon cyflwyno a derbyn gwasanaethau swyddfa bost. Cafodd cangen fechan yng Nghnwch-coch, ger Aberystwyth, sy'n cael ei rhedeg ar fferm weithiol, ei henwi yn gangen fwyaf arloesol y DU. Yn ail yn y ras oedd cangen Rosebush yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cael ei rhedeg mewn beudy ar fferm sy'n gwneud caws. Y mae hefyd enghreifftiau o siopau cymunedol wedi'u cyfuno â swyddfa'r post, megis yn y fenter gydweithredol yn Bicknoller yng Ngwlad yr Haf. Isod, nodir enghreifftiau o fentrau a gyflwynwyd mewn cynlluniau arbrofol Allgymorth.

- Yn Frittenden, Caint, croesawodd y gymuned fynediad o'r newydd at wasanethau Swyddfa'r Post ar ôl eu colli pan gaeodd y siop leol. Gwirfoddolodd tafarn The Bell & Jorrocks i ddod yn lleoliad ar gyfer gwasanaeth newydd Partner awtomataidd gyda'r gangen greiddiol yn Staplehurst. Bellach, felly, gall y bobl leol gael arian parod a stampiau, yn ogystal â mymryn o ginio a rhywbeth i'w yfed, oll dan yr unto.

- Yn Fife mae'r is-swyddfa bost yn Leven hefyd yn darparu gwasanaethau trwy siopau pentref yng nghymunedau Windygates a Collinsburgh, gan ddangos y cyfleoedd i fusnesau presennol gynnig llety i swyddfa'r post am ran o'r wythnos, sydd nid yn unig yn cynnal y gwasanaethau ond yn dod â'r budd ychwanegol o ragor o ymwelwyr â'r busnes lletyol. Ac nid yw'r cyfleoedd ar gyfer gweithio gyda chymunedau i ddod o hyd i atebion wedi'u cyfyngu i ddefnyddio busnesau masnachol yn unig. Y neuadd bentref sy'n rhoi llety i swyddfa bost ddibynnol ar gyfer cymuned fechan East Stour yn Dorset.
- Mae is-bostfeistr cangen Llandeilo yn dangos sut y gall un gangen Greiddiol helpu i gynnal gwasanaeth i nifer o gymunedau trwy ddarparu gwasanaeth gan ddefnyddio offer symudol wedi'i leoli yn neuadd bentref Carmel yn ogystal ag yn siop y pentref mewn dwy gymuned arall gerllaw. Mae'r un is-bostfeistr hefyd yn rhedeg cangen ddibynnol ym mhentref pellennig Bethlehem, sy'n enwog am y cynnydd mawr yn ei chwsmeriaid bob Nadolig pan fydd pobl eisiau anfon cardiau cyfarch gyda'r marc postio arbennig.
- Hefyd, bu Swyddfa'r Post wrthi'n rhoi prawf llwyddiannus ar ffyrdd newydd dychmygus o ddod â gwasanaethau at gymunedau gan ddefnyddio faniau amlwg Swyddfa'r Post. Yn Durham, mae'r gwasanaeth Symudol sy'n cael ei redeg gan gangen Swyddfa'r Post Tow Law yn cael croeso mewn naw cymuned yn yr ardal. Yng Ngogledd Iwerddon aethpwyd â'r syniad o swyddfa bost symudol un cam ymhellach, lle mae Swyddfa'r Post wedi llunio cyswllt â'r gwasanaeth llyfrgell teithiol. Ac yn Suffolk, mae is-bostfeistr y gangen Greiddiol yn Aldeburgh yn helpu i ddarparu gwasanaethau swyddfa'r post at y rhiniog ar gyfer chwe chymuned fechan yn yr ardal gyfagos.

4.9 Er mwyn gwella cost-effeithiolrwydd, gellir gosod oriau'r gwasanaethau Allgymorth ar lefel sy'n fwy priodol i lefel y busnes a gynhyrchir o fewn y gymuned honno, gan roi terfyn ar y sefyllfa bresennol lle bydd llawer o is-bostfeistri ar agor am gyfnodau hir gydag ychydig neu ddim cwsmeriaid. Mewn llawer o achosion bydd ystod y gwasanaethau sydd ar gael yn ehangu, gan y bydd mynediad at amrywiaeth cynhyrchion y safle Creiddiol, gan olygu y bydd gan lawer o gwsmeriaid fynediad at drwyddedu cerbydau modur a gwirio pasport a gwasanaethau danfon, am y tro cyntaf.

4.10 Yn ychwanegol at aildrefnu'r rhwydwaith, mae Swyddfa'r Post Cyf. yn datblygu cynllun trawsffurfio ar gyfer y busnes. Mae ganddynt weledigaeth o Swyddfa'r Post yn rhywle y bydd pobl yn troi ato am gyngor, yn ymddiried ynddo ac yn rhywle sy'n rhoi cymorth llaw i ddefnyddwyr a busnesau bach fel ei gilydd wrth iddynt reoli eu cartrefi, eu harian a'u mentrau. Bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn ehangu ei wasanaethau gyda phostio newydd a chynhyrchion gwasanaethau ariannol wedi'u teilwra at anghenion cwsmeriaid a chyda mynediad mwy cyfleus atynt. Mae'r busnes yn canolbwyntio eu cynhyrchion a'u gwasanaethau mewn pedwar maes allweddol:

- *Postio* – Gan adeiladu ar ei gynhyrchion traddodiadol a'i safle fel cangen adwerthol y Post Brenhinol, nod Swyddfa'r Post yw bod 'y lle i fynd' ar gyfer yr holl anghenion postio, gan ddarparu cyngor ac arbenigedd yn ogystal ag amrediad llawn o gynhyrchion. Er enghraifft mae'n edrych ar ffyrdd o ddarparu mwy o hwylustod i gwsmeriaid ar gyfer casglu pecynnau ac mae'n gweithio gydag eBay a chwmnïau archebu drwy'r post i ddarparu cynhyrchion postio ychwanegol sy'n hynod hwylus.
- *Gwasanaethau Ariannol* – Mae Swyddfa'r Post Cyf. hefyd yn bwriadu adeiladu ar ei lansiad llwyddianus i faes gwasanaethau ariannol; dyma'r wyneb newydd sy'n tyfu gyflymaf ym maes Yswiriant Ceir, gan werthu 1,000 polisi y dydd ar gyfartaledd. Buddsoddwyd £1.2 biliwn hyd yma yn y Cyfrif Instant Saver. Bwriada ehangu ei ddewis o gynhyrchion bancio, cyllid personol, teithio (nhw sydd ar flaen y farchnad o ran cyfnewid arian tramor) a thalu biliau, cyflwyno 4,000 o derfynellau electronig newydd PayStation a chynnig 4,000 o beiriannau twll yn y wal ATM i'w defnyddio am ddim ledled y rhwydwaith.
- *Telecoms* – Adeiladodd Swyddfa'r Post Cyf. gryn fusnes ym maes telecom gyda HomePhone a bellach nhw yw'r ail fwyaf yn y DU am roi arian ychwanegol ar ffôn symudol. Mae'r busnes yn bwriadu lansio cynhyrchion pellach yn y maes hwn, er enghraifft cynnig band eang.
- *Gwasanaethau'r Llywodraeth* – Fe fydd Swyddfeydd Post yn dal i ddarparu amrediad eang o wasanaethau yn gysylltiedig â'r Llywodraeth, a hynny'n syml a chyfleus, a bydd yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag amryfal adrannau'r Llywodraeth i chwilio am gyfleoedd i gyflwyno gwasanaethau ar eu rhan trwy gyfrwng sianelau swyddfa'r post.

4.11 Yn ogystal â pharhau i adeiladu cynhyrchion a gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid, mae Swyddfa'r Post Cyf. hefyd yn bwriadu ehangu ei wasanaethau a'i gyfleustra i gwsmeriaid â busnesau bach. Mae ganddo gynlluniau i drawsffurfio'r profiad i gwsmeriaid o ran cael mynediad at Swyddfa'r Post, ac yn ogystal â hynny i ddarparu mynediad mwy cyfleus trwy nifer o sianelau megis y Rhyngrwyd a'r ffôn, gan ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gael mynediad at gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd sy'n gweddu orau iddynt yn ogystal â chynyddu'r oriau agor lle bo galw amlwg am hynny gan gwsmeriaid.

4.12 Ym maes postio, mae Swyddfa'r Post Cyf. yn adolygu nifer o fentrau i wella gwasanaeth a chyfleustra i gwsmeriaid. Un maes allweddol lle mae cyfle yw rhoi'r gallu i gwsmeriaid ddod at gownteri swyddfa'r post i gasglu parseli y maent wedi'u harchebu gan gwmnïau archebu drwy'r post neu gan wasanaethau Rhyngrwyd. Ar hyn o bryd mae'r busnes yn cynnal treialon yn y maes hwn ac yn gweithio gyda rhannau eraill o Grŵp y Post Brenhinol i ddatblygu cynigion i'w rhoi gerbron cleientiaid mawr gan gynnwys cwmnïau archebu drwy'r post, gwerthwyr a busnesau eraill sydd eisiau sicrhau bod eu cwsmeriaid yn derbyn eu parseli yn y modd mwyaf effeithlon a chyfleus posibl. Mae Swyddfa'r Post Cyf. a'r Post Brenhinol yn cydweithio'n agos i ddarparu atebion 'o un pen i'r llall' ar gyfer eu prif gwsmeriaid yn y maes hwn.

4.13 Yn ogystal â'r rhaglen a gynlluniwyd i ailwampio Swyddfeydd y Goron fel yr amlinellir isod, mae Swyddfa'r Post Cyf. hefyd yn datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda'i is-bostfeistri a'i bartneriaid rhyddfraint, a'u cefnogi, unwaith eto gyda'r amcan o fynd ati'n fwy cyson i fodloni anghenion y cwsmeriaid. Mae'r ffyrdd hyn yn cynnwys hyd at 4,000 o beiriannau twll yn y wal (ATM) i'w defnyddio am ddim ar draws y rhwydwaith a bydd 4,000 arall o derfynellau PayStation yn cael eu cyflwyno mewn swyddfeydd asiantau a rhyddfreiniau, fel y gall is-bostfeistri ddarparu mwy o wasanaethau yn electronig ac yn fwy hyblyg. Mae Swyddfa'r Post Cyf. yn rhagweld y bydd tuag 20% o'i werthiannau yn dod trwy lwybrau uniongyrchol erbyn 2011, a bydd yn buddsoddi yn ei wefan a'i ganolfannau galwadau er mwyn rhoi'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid y tu hwnt i'r gangen. Serch hynny, i'r cwsmeriaid y mae'n well ganddynt ymweld â swyddfa'r post, bydd rhwydwaith cenedlaethol o swyddfeydd yn parhau i gynnig presenoldeb cenedlaethol yn unol â meini prawf mynediad a bennir yn eglur. Fe fydd gan gwsmeriaid y swyddfeydd lleiaf na ellir eu cadw y dewis, fodd bynnag, o ddefnyddio sianelau uniongyrchol neu ymweld â swyddfa gerllaw.

4.14 Ers amser hir, mae swyddfeydd y Goron, yn ogystal â llawer o weddill y rhwydwaith hefyd, wedi dioddef o ddiffyg buddsoddi. Lle bo modd gwella swyddfeydd y Goron sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Swyddfa'r Post Cyf., mae angen cyflawni hyn trwy fuddsoddi yn yr adeiladau, mewn technoleg newydd a thrwy wella'r hyn a gynigir i'r cwsmer ond mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd eu trosi yn safleoedd rhyddfraint yn ffordd fwy priodol o fwrw ymlaen. Bydd Swyddfa'r Post Cyf. hefyd yn buddsoddi i wneud gwelliannau i'r adeiladau a'r gosodiad a'r modd y gweithredir y gwasanaethau i gwsmeriaid er mwyn codi'r safonau at y lefelau y mae cwsmeriaid yn eu disgwyl gan fusnes manwerthu modern. Bydd swyddfeydd y Goron yn enghreifftiau blaenllaw o ran gosod safonau gwasanaeth i gwsmeriaid ar draws y rhwydwaith ac arloesi gyda'r defnydd o dechnoleg newydd megis cyfleusterau hunanwasanaeth awtomataidd.

4.15 Yn ychwanegol at ymdrechion Swyddfa'r Post Cyf. i drawsffurfio'r busnes, mae'r Llywodraeth yn parhau'n ymrwymedig i ganiatáu i bobl gael mynediad at eu pensiwn a'u budd-daliadau ar ffurf arian parod yn swyddfa'r post os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac mae yna gyfres o gyfrifon sy'n gwneud hynny'n bosibl. Mae cytundeb cyfredol y POca yn dod i ben ym mis Mawrth 2010. Ystyriodd y Llywodraeth a phenderfynodd y bydd yn parhau â chyfrif newydd ar ôl 2010. Bydd y cyfrif newydd hwn yn cynnwys nodweddion tebyg i'r POca. Bydd ar gael yn genedlaethol a bydd cwsmeriaid yn gymwys ar gyfer y cyfrif ar yr un sail ar y maent nawr. Oherwydd rheolau caffael yr UE, nid oes gennym ddewis ond cynnal tendr cystadleuol ar gyfer y cynnyrch hwn, a rhaid i ni sicrhau y cawn y gwerth gorau am arian i'r trethdalwyr, ond mae Swyddfa'r Post Cyf. mewn sefyllfa dda i gyflwyno cynnig cryf o gofio maint y rhwydwaith a'r meini prawf mynediad yr ydym bellach yn eu cyflwyno. At hynny, bydd arian parod ar gael yn swyddfa'r post trwy oddeutu 4,000 o beiriannau twll yn y wal (ATM) i'w defnyddio am ddim, sy'n cael eu cyflwyno ar draws y rhwydwaith, yn ogystal â chyfres o gyfrifon talu llog a fydd yn atyniadol i'r cyhoedd yn gyffredinol a hefyd i ddefnyddwyr POca sy'n dewis gadael i falansau grynhoi yn eu Cyfrif Cerdyn.

Adran 5:

Rhwydwaith Cenedlaethol wedi'i Aildrefnu

Fe fydd aildrefnu'r rhwydwaith yn digwydd o fewn fframwaith y meini prawf mynediad sy'n diogelu presenoldeb mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig trefol a bydd yn sicrhau y cynhelir rhwydwaith cenedlaethol. Bydd Allgymorth yn darparu gwasanaethau mewn llawer o ardaloedd gwledig.

5.1 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod swyddogaeth bwysig swyddfeydd post, yn gymdeithasol ac economaidd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig a difreintiedig trefol, ac y mae hefyd yn derbyn, lle na all swyddogaeth swyddfeydd post o'r fath fyth fod yn ddichonadwy yn fasnachol, y bydd yna angen am daliad rhwydwaith cymdeithasol parhaus o hyd at y lefel bresennol sef 150 miliwn y flwyddyn. Bydd aildrefnu'r rhwydwaith yn adlewyrchu hyn.

5.2 Er mwyn galluogi Swyddfa'r Post Cyf. i gyflwyno rhwydwaith cenedlaethol sefydlog, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno set o feini prawf allweddol yn diffinio'r gofynion mynediad lleiaf at wasanaethau swyddfa bost ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd y meini prawf hyn yn gosod safon ar gyfer presenoldeb cenedlaethol ac fe'u hategir gan feini prawf ychwanegol i ddiogelu presenoldeb mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig trefol. Rydym gan hynny yn bwriadu rhoi'r dasg i Swyddfa'r Post Cyf. o aildrefnu'r rhwydwaith gan sefydlu un sy'n bodloni'r gofynion mynediad canlynol i safle[4]

- *Yn genedlaethol*, 99% o fewn 3 milltir a 90% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir;
- Mewn *ardaloedd trefol difreintiedig*[5], 99% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir;
- Mewn *ardaloedd trefol*, 95% o'r boblogaeth i fod o fewn 1 filltir;
- Mewn *ardaloedd gwledig*, 95% o gyfanswm y boblogaeth wledig o fewn 3 milltir.
- Mewn ardaloedd anghysbell, 95% o'r boblogaeth mewn rhanbarthau côd post[6] o fewn 6 milltir.

4 gall "safle" fod yn gangen sefydlog neu'n lleoliad lle mae gwasanaethau Allgymorth ar gael

5 cymunedau difreintiedig trefol yw'r rhai yn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach mwyaf difreintiedig a nodir gan y Mynegeion Amddifadedd Lluosog

6 rhanbarth côd post yw rhan gyntaf y côd post e.e. SL9. Mae yna 2,795 ledled y wlad a 38 nad ydynt yn bodloni'r maen prawf hwn ar hyn o bryd. Bydd y 38 hyn yn parhau i gael eu heithrio ond ni fyddwn yn caniatáu i ragor o ranbarthau côd post gael eu heithrio.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, ar draws y wlad gyfan, na ellir cael 'un ymagwedd sy'n ffitio pawb' o ran meini prawf mynediad ac y bydd yn rhaid i Swyddfa'r Post Cyf. roi ystyriaeth i amodau lleol yn ôl synnwyr cyffredin gan roi cyfrif am rwystrau megis afonydd, mynyddoedd, dyffrynnoedd, traffyrdd a chroesi'r môr at ynysoedd er mwyn osgoi caledi gormodol a sicrhau y cedwir at yr egwyddorion sydd y tu cefn i'r meini prawf mynediad.

5.3 Yn lle'r polisi presennol o rwystro, lle bo hynny'n bosib, cau swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig fe ddaw polisi newydd o gynnal y lefelau presenoldeb a osodir uchod. Yn dilyn y rhaglen aildrefnu, bydd newidiadau i'r rhwydwaith yn parhau o ganlyniad i ymadawiad naturiol (er enghraifft pan fo is-bostfeistr yn ymddeol neu'n symud). Byddai cau unrhyw swyddfa o ganlyniad i ymadawiad naturiol yn ddarostyngedig i'r meini prawf mynediad uchod a, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau yn lleol, byddai angen cynnal y gwasanaethau neu osod dulliau eraill o gyflwyno gwasanaethau yn eu lle.

5.4 Wrth resymoli'r rhwydwaith, byddai arnom angen i Swyddfa'r Post Cyf. sicrhau na fyddai unrhyw ran o'r rhwydwaith nac unrhyw grŵp neilltuol o bobl yn dioddef effaith andwyol fwy arwyddocaol nag unrhyw un arall. Disgwyliwn y bydd rhesymoli yn effeithio'n bennaf ar gyfuniad o ganghennau sy'n cael eu defnyddio leiaf a changhennau anfasnachol mewn ardaloedd â gorddarpariaeth lle gall pobl ddod o hyd i ganghennau gwahanol gerllaw.

5.5 Byddwn yn darparu cefnogaeth i Swyddfa'r Post Cyf. i roi iawn i is-bostfeistri sy'n gorfod gadael y rhwydwaith dan y rhaglen aildrefnu ar sail debyg i'r rhaglen Ailddyfeisio Trefol (pryd y talwyd iawndal o dâl 28 mis. Y taliad cyfartalog i is-bostfeistri trefol oedd £60,000 y swyddfa). Mae'n eglur bod niferoedd sylweddol o is-bostfeistri eisiau gadael y rhwydwaith dan raglen strwythuredig a fydd yn talu iawn iddynt am beidio â bod mewn sefyllfa i werthu'r busnes yn ei flaen.

5.6 Byddwn yn gofyn i Swyddfa'r Post Cyf. ddatblygu cynlluniau lleol sy'n ffitio o fewn y fframwaith hwn. Tra bydd penderfyniadau neilltuol am gau safleoedd a'u lleoliadau yn fater i'r cwmni, byddwn yn cyfyngu Swyddfa'r Post Cyf. i gau uchafswm o 2,500 safle gyda iawndal yn genedlaethol. Hefyd, bydd angen iddynt sicrhau y bydd aildrefnu'r rhwydwaith yn digwydd o fewn y pecyn ariannu a ddynodir yn ogystal â bodloni'r meini prawf mynediad angenrheidiol.

5.7 Wrth ddatblygu cynigion Swyddfa'r Post Cyf., fe fydd angen trefniadau arbennig ar gyfer canghennau y mae eu hangen yn benodol er mwyn bodloni naill ai'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer mynediad at wasanaethau post neu feini prawf newydd y Llywodraeth ar gyfer presenoldeb cenedlaethol ac mewn ardaloedd anghysbell. Gan ddibynnu ar amgylchiadau, bydd y rhain yn cael eu heithrio o gynigion cau neu lleddfir rhywfaint ar y ffaith eu bod yn cael eu cau trwy gyflwyno dulliau cyflwyno Allgymorth.

5.8 Byddwn yn annog Swyddfa'r Post Cyf. i adeiladu ar lwyddiant model cyflwyno gwasanaeth Allgymorth er mwyn cynorthwyo i gynnal gwasanaethau i gymunedau mwy anghysbell. Bydd nifer sylweddol (oddeutu 500) o gynlluniau Allgymorth newydd yn cael eu cychwyn gan helpu i liniaru canlyniadau'r rhaglen gau wledig dan reolaeth yn dilyn ymgynghori ag is-bostfeistri a chymunedau lleol. Gydag amser, lle bo hynny'n gwneud synnwyr masnachol ac yn rhoi ystyriaeth briodol i faterion sensitif yn lleol, fe allai Swyddfa'r Post Cyf. ddefnyddio'r model busnes newydd hwn yn helaeth yn y dyfodol wrth i ganghennau sy'n cau drwy athreuliad naturiol gael eu hamnewid yn unol â'r meini prawf presenoldeb cenedlaethol newydd. Gyda'r pwyntiau cyflwyno Allgymorth presennol a rhai ychwanegol yn lleddfu rhywfaint ar y cau a fydd yn digwydd trwy ymadawiad naturiol. Bydd pwyntiau cyflwyno o'r fath, erbyn 2010-11, yn chwarae rhan gynyddol o ran cyflwyno parhad gwasanaethau i gymunedau anghysbell lle nad yw swyddfeydd confensiynol yn economaidd.

5.9 Gan fanteisio ar brofiad y Rhaglen Ailddyfeisio Trefol, byddem yn disgwyl y byddai ymagwedd Swyddfa'r Post Cyf. tuag at gau a mesurau eraill i aildrefnu'r gwasanaeth yn golygu ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer ardaloedd ar sail grwpiau o etholaethau Seneddol cyfagos ac y bydd yr holl gynllunio a'r ymgynghori ar sail cyflwyno cynigion ar gyfer pob achos o gau a newidiadau perthynol eraill yn yr ardal honno ar yr un pryd er mwyn casglu ac adlewyrchu anghenion y cwsmeriaid yn well. Bydd y gweithredu yn cael ei raglennu yn y modd mwyaf effeithlon. Bydd cynigion ardalol yn cael eu datblygu o fewn fframwaith y meini prawf mynediad perthnasol a chyda chyfranogiad is-bostfeistri a Postwatch. Bydd Aelodau Seneddol ac aelodau'r gweinyddiaethau datganoledig yn cael gwybod am y cynigion cyn iddynt gael eu rhoi at ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos o hyd ymysg cwsmeriaid a sefydliadau eraill.

5.10 Gan y bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn datblygu ei gynigion cau ar sail strategol gan gydymffurfio â'r meini prawf mynediad, fe fydd yn gynllun gorfodol. Ond, ble bynnag y bo modd, disgwyliwn iddynt gyfateb y cau â swyddfeydd lle mae'r is-bostfeistr wedi nodi ei fod ef neu hi yn fodlon ymddeol, neu adael, y busnes, a thrwy hynny leihau i'r isafswm nifer y swyddfeydd a fydd yn cael eu cau lle nad yw'r is-bostfeistri wedi mynegi dymuniad i gau eu busnes ar sail telerau iawndal y rhaglen aildrefnu.

5.11 Yn erbyn y cefndir hwn, ni fydd Swyddfa'r Post Cyf. yn ymgynghori ynghylch egwyddorion newid gan y bydd y rhain wedi'u sefydlu gan bolisi'r Llywodraeth ac wedi cael sylw fel rhan o'r ymgynghoriad polisi cenedlaethol hwn. Rôl Postwatch ar y cam hwn fydd gwneud yn siwr bod y bobl iawn yn rhan o'r ymgynghoriad, bod eu safbwyntiau yn cael eu casglu'n briodol a phenderfyniadau wedi hynny yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

Adran 6:

Casgliadau

6.1 Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i rwydwaith cenedlaethol o swyddfeydd post. Credwn y bydd yr amrediad o fesurau yn y flaen-strategaeth a gynigiwn, a bennir yn y ddogfen ymgynghori hon, yn gosod y rhwydwaith aildrefnedig a fydd yn deillio o hyn ar seiliau cadarn i'r dyfodol rhagweladwy. Credwn hefyd fod y mesurau arfaethedig yn taro ar gydbwysedd rhwng y gost i'r trethdalwyr o ariannu swyddogaeth gymdeithasol y swyddfeydd post ac anghenion y grwpiau cwsmeriaid mwyaf bregus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig trefol. Buom yn gweithio'n agos â Swyddfa'r Post Cyf. dros y misoedd diwethaf ac mae ein cynigion yn adlewyrchu achos y cwmni i'r Llywodraeth am fuddsoddiad. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau gyda'r cwmni yn y misoedd i ddod ac yn ceisio llunio penderfyniadau terfynol ar ôl i ni ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

6.2 Bydd buddsoddiad pellach arfaethedig y Llywodraeth yn darparu cyfle i Swyddfa'r Post Cyf. foderneiddio ac aildrefnu'r rhwydwaith a'i roi ar seiliau sefydlog a mwy cynaliadwy erbyn 2011. Y tu hwnt i hynny, mae'n bwysig bod siâp a phresenoldeb y rhwydwaith yn parhau i adlewyrchu ac addasu i anghenion lleol. Y bobl "ar lawr gwlad" sy'n deall orau beth yw gwerth swyddfa'r post i'r gymuned leol ac mae Llywodraeth Leol hefyd mewn lle da i ddeall pryderon ac anghenion lleol. Yn y tymor hwy, mae'r Llywodraeth eisiau datganoli rhagor o gyfrifoldeb am benderfyniadau lleol ar lefel leol a rhoi rhagor o hyblygrwydd ar gyfer penderfyniadau ariannu lleol. Felly mae'r Llywodraeth yn bwriadu archwilio swyddogaethau posibl yr Awdurdodau Lleol yn Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran dylanwadu ar y ffyrdd gorau o gyflwyno gwasanaethau post yn y dyfodol.

6.3 Mae'r papur ymgynghorol hwn yn disgrifio cynigion y Llywodraeth ar gyfer aildrefnu rhwydwaith swyddfa'r post er mwyn ei roi ar seiliau cadarn ar gyfer y tymor hwy. Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch materion a godir yn y ddogfen hon ac yn croesawu'n arbennig ymatebion i'r cwestiynau a restrir isod.

Crynodeb o Gwestiynau

Yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Ydych chi'n credu bod blaen-strategaeth y Llywodraeth ar gyfer rhwydwaith swyddfa'r post yn mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol a'r heriau sy'n wynebu'r rhwydwaith?
2. A oes yna ffactorau arwyddocaol eraill sy'n effeithio ar ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post na chawsant sylw yn ymdriniaeth arfaethedig y Llywodraeth, yn ôl pob golwg?
3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y meini prawf mynediad cenedlaethol a gynigir?
4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y meini prawf a gynigir ar gyfer ardaloedd difreintiedig trefol ac ardaloedd gwledig?
5. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyflwyno gwasanaethau'n well trwy rwydwaith swyddfa'r post?
6. Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y trefniadau Allgymorth fel modd o gynnal gwasanaeth i gymunedau bach ac anghysbell?
7. Oes gennych chi sylwadau ynghylch pa mor ymarferol yw hi i'r gymuned fod yn berchen ar rannau o rwydwaith swyddfa'r post, a allai olygu trosglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol a/neu sefydlu cymdeithasau cydfuddiannol neu gydweithredol lleol i fod yn berchen ar wasanaethau lleol a'u rhedeg?

Atodiad A

Côd Ymarfer yr Ymgynghoriad

1. Ymgynghori'n eang gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.
2. Bod yn eglur ynghylch eich cynigion, ar bwy y gallant effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymatebion.
3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.
4. Rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a gawsoch a sut y gwnaeth y broses ymgynghori ddylanwadu ar y polisi.
5. Monitro effeithlonrwydd eich adran wrth ymgynghori, gan gynnwys trwy ddefnyddio cydlynydd ymgynghoriad dynodedig.
6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion gorau gwell rheoleiddio, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Reoleiddiol os yw'n briodol.

Mae'r côd cyfan i'w gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet, cyfeiriad http://www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/index.asp

Atodiad B

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 8 Mawrth 2007

Mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol i chi nodi eich ymatebion i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb hon.

Enw: _____

Enw a chylch gwaith y sefydliad (os yw'n gymwys): _____

Cyfeiriad: _____

_____

E-bost: _____

Dychwelwch ffurflenni wedi'u llenwi (trwy e-bost os oes modd) at:

Ymgynghoriad Rhwydwaith Swyddfa'r Post
Department of Trade and Industry
Response Centre
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET
Ffacs: 00 44 (0) 20 7215 5329
E-bost: dti.enquiries@dti.gsi.gov.uk

Rhowch groes mewn un bocs o blith y rhestr ganlynol o ddewisiadau sy'n eich disgrifio chi orau.

- ☐ Unigolyn
- ☐ Unigolyn – Is-bostfeistr
- ☐ Menter Fach i Ganolig
- ☐ Undeb Llafur
- ☐ Grŵp Diddordeb
- ☐ Sefydliad Rhanbarthol
- ☐ Gweinyddiaeth Ddatganoledig
- ☐ Llywodraeth Leol
- ☐ Llywodraeth Ganolog
- ☐ Arall (nodwch) _____

Mae croeso i chi ateb cynifer neu gyn lleied o gwestiynau ag y dymunwch. Mae'n ddefnyddiol os gallwch esbonio eich safbwyntiau mor llawn â phosibl yn y blychau sylwadau, yn enwedig lle'r ydych yn anghytuno â'r cynigion a nodir yn y papur ymgynghorol.

Cwestiwn 1.

Ydych chi'n credu bod blaen-strategaeth y Llywodraeth ar gyfer rhwydwaith swyddfa'r post yn mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol a'r heriau sy'n wynebu'r rhwydwaith?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Cwestiwn 2.

A oes yna ffactorau arwyddocaol eraill sy'n effeithio ar ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post na chawsant sylw yn ymdriniaeth arfaethedig y Llywodraeth, yn ôl pob golwg?

Oes ☐ Nac oes ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Cwestiwn 3.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y meini prawf mynediad cenedlaethol a gynigir?

Oes ☐ Nac oes ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Cwestiwn 4.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y meini prawf a gynigir ar gyfer ardaloedd difreintiedig trefol ac ardaloedd gwledig?

Oes ☐ Nac oes ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Cwestiwn 5.

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyflwyno gwasanaethau'n well trwy rwydwaith swyddfa'r post?

Oes ☐ Nac oes ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Cwestiwn 6.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y trefniadau Allgymorth fel modd o gynnal gwasanaeth i gymunedau bach ac anghysbell?

Oes ☐ Nac oes ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Cwestiwn 7.

Oes gennych chi sylwadau ynghylch pa mor ymarferol yw hi i'r gymuned fod yn berchan ar rannau o rwydwaith swyddfa'r post, a allai olygu trosglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol a/neu sefydlu cymdeithasau cydfuddiannol neu gydweithredol lleol i fod yn berchen ar wasanaethau lleol a'u rhedeg?

Oes ☐ Nac oes ☐ Dim barn ☐

Sylwadau

Diolch am roi o'ch amser i roi gwybod eich barn i ni fel hyn.

Nid ydym yn bwriadu cydnabod ein bod wedi derbyn ymatebion unigol oni bai eich bod yn ticio'r bocs isod.

☐

Atodiad C

Rhestr o Sefydliadau fu'n Rhan o'r Ymgynghoriad

Action for Communities in Rural England
Age Concern – England
Association of British Credit Unions
British Chambers of Commerce
Business in the Community
Centre for Environment and Rural Affairs
Commission for Rural Communities
Co-operatives UK Limited
Disability Rights Commission
Federation of Small Businesses
Forum of Private Business
Help The Aged – England
Joseph Rowntree Foundation
Local Government Association
Mencap
National Association of Citizens Advice Bureaux
National Association of Local Councils
National Council for Voluntary Organisations
National Federation of Women's Institutes
Plunkett Foundation
Royal National Institute of the Blind,
Rural Shops Alliance
Social Enterprise Coalition
Townswomen's Guild
Village Retail Services Association

Age Concern – Scotland
Association of Scottish Community Councils
Communities Scotland
Convention Of Scottish Local Authorities
Help The Aged – Scotland
Money Advice Scotland
Scottish Consumer Council
Scottish Council for Voluntary Organisations
Scottish Enterprise
The Scottish Parliament

Age Concern – Cymru
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Help The Aged – Cymru
Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
Un Llais i Gymru
Pensiynwyr Cymru
Fforwm Gwledig Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Age Concern – Northern Ireland
Community Relations Council
Equality Commission
General Consumer Council For Northern Ireland
Help The Aged – Northern Ireland
Northern Ireland Assembly
Northern Ireland Chamber of Commerce and Industry
Northern Ireland Local Government Association
Northern Ireland Public Service Alliance
Northern Ireland Social Care Council
Rural Community Network
Rural Development Council
The Northern Ireland Committee, Irish Congress of Trade Unions

National Federation of Sub-Postmasters
Postcomm
Postwatch

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu sy'n cynnwys isafswm o 75% o wastraff ôl-ddefnyddwyr.
Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Adran Masnach a Diwydiant. www.dti.gov.uk
© Hawlfraint y Goron. Mae'r cyhoeddiad hwn dan Hawlfraint y Goron ond gellir ei atgynhyrchu heb ganiatâd ffurfiol na chost ar gyfer defnydd personol neu anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell.

DTI/Pub 8446/50k/12/06/NP. URN 06/2185W